

Hyrddiad Gwybodaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru – Ebrill 2022

Gwasanaethau Ambiwylans Cymru yn y Newyddion:

- [Gorsaf newydd fodern ar gyfer criwiau ambiwlans Caerdydd](#)
- [Elyrch a fu mewn damwain ag ambiwlans ar ffordd ddeuol yn cael dod at ei gilydd eto diolch i RSPCA Cymru](#)
- [Gwasanaeth 111 bellach ar gael ar draws Cymru](#)
- [Gweithiwr ambiwlans Rhondda Cynon Taf yn taclo Mynydd Kilimanjaro ar gyfer Elusen Staff yr Ambiwylans](#)
- [Gwasanaethau Ambiwylans Cymru yn canmol cyfraniad y fyddin i ymdrech Covid-19](#)
- [Gorsaf newydd fodern ar gyfer criw ambiwlans Bae Ceredigion](#)
- [Cerddor yn dal i gadw'r curiad ar ôl ataliad y galon diolch i Gydymatebwyr meddygol](#)

Bar Offer Hygyrchedd ReciteMe

Recite me Mae ReciteMe, sydd ar gael ar wefan [GIG 111 Cymru](#) yn galluogi ymwelwyr i addasu'r wefan mewn ffordd sy'n gweithio orau iddyn nhw. Mae'r feddalwedd hygyrchedd yn cynnig nifer o swyddogaethau gan gynnwys darlennydd sgrin, offer cymorth darllen, newid maint ffont, lliw cefndir ac mae'n cyfieithu testun i dros 100 o ieithoedd gan gynnwys 35 o leisiau testun i leferydd. I lansio'r feddalwedd ewch i 111.wales.nhs.uk a chliciwch ar 'ReciteMe'.

Rydym eisiau eich adborth...

Ydych chi wedi defnyddio unrhyw un o'n gwasanaethau yn ddiweddar? Rydym eisiau eich adborth gonest i'n helpu i ddysgu a gwella. Mae gennym amrywiaeth o Arolygon Profiad Cleifion y gallwch eu defnyddio i ddweud wrthym am ddefnyddio unrhyw un o'r gwasanaethau rydym yn eu darparu, i gwblhau arolwg, a dewiswch y ddolen briodol isod:

- [Dywedwch wrthym am eich profiad o ffonio 999 am ambiwlans brys](#)
- [Dywedwch wrthym am eich profiad o ddefnyddio Cludiant Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys](#)
- [Dywedwch wrthym am eich profiad o ffonio GIG 111 Cymru](#)
- [Dywedwch wrthym am eich profiad o ddefnyddio gwefan GIG 111 Cymru](#)

Gallwch hefyd adael canmoliaeth, gwneud sylw cyffredinol neu roi eich adborth i ni ar-lein gan ddefnyddio ein ffurflen ['Dweud Eich Dweud'](#).

Bwth Fideo Rhithiol (eich stori claf)

Gallwch chi rannu eich stori claf trwy ddefnyddio ein 'Bwth Fideo Rhithiol' newydd. Os ydych chi'n glaf, yn berthynas neu'n ofalwr, mae gwranddo ar eich profiadau o ddefnyddio Gwasanaethau Ambiwylans Cymru yn ein helpu ni i ddeall beth rydym ni'n ei wneud yn dda a beth allem ni ei wneud yn well. Rydym yn defnyddio'r straeon hyn i ddeall sut deimlad yw bod yn ddefnyddiwr ein gwasanaethau; mae clywed hanes yn cael ei adrodd mewn llais yr unigolyn ei hun â mwy o bŵer emosiynol na darllen adroddiad yn unig ac mae'n ein hatgoffa o'r bod dynol sydd wrth galon ein prosesau a'n gweithdrefnau.

Os oes gennych stori i'w rhannu, ewch i'r [gwasanaeth Bwth Fideo Rhithiol ar ein gwefan](#).

Rhwydwaith Pobl a Chymunedau

Bydd Rhwydwaith Pobl a Chymunedau Gwasanaethau Ambiwylans Cymru yn eich galluogi i ymwneud mwy â Gwasanaethau Ambiwylans Cymru a dweud eich dweud am sut y caiff ein gwasanaethau eu darparu. Os hoffech ymuno â'r Rhwydwaith Pobl a Chymunedau, llenwch y [ffurflen ar-lein hon](#).

Defnyddiwch Ein Gwasanaeth yn Ddoeth

Rydym yn brysur iawn yma yn [#TîmWAST](#). Defnyddiwch ein gwasanaeth yn ddoeth a chadwch 999 ar gyfer y rhai sydd wir angen ambiwlans. Mae Gwasanaethau Ambiwylans Cymru yn derbyn nifer fawr iawn o alwadau ar hyn o bryd, nid oes angen ambiwlans ar bawb sy'n ffonio 999, efallai bod gwasanaethau eraill a allai helpu. Dyma rai dolenni sy'n esbonio mwy:

- [Pa wasanaeth sydd ei angen arnaf?](#)
- [Canfod Gwasanaethau yn agos atoch chi](#)

Ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru:

- [Mesurau diogelu rhyddid](#)
- [Dweud eich dweud: dyfodol cyfansoddiadol Cymru](#)

Newyddion Eraill yn ymwneud ag Iechyd:

Dogfen ymgynghori Strategaeth Gwasanaethau Iechyd Meddwl Arbenigol 2022-2028.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynrychioli'r cam cyntaf ar gyfer gwireddu dull unigolyn cyfan uchelgeisiol o gomisiynu gwasanaethau Iechyd Meddwl arbenigol ar ran saith Bwrdd Iechyd Cymru. Ar hyn o bryd mae'r ddogfen yn cael ei pharatoi ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol o 10^{fed} Mai - 6^{ed} Mehefin 2022, a hoffent achub ar y cyfle hwn i roi rhaghysbysiad o'r ddogfennaeth i allwedd rhanddeiliad. Bydd fersiynau Cymraeg o'r dogfennau ar gael pan fydd yr ymgynghoriad yn agor.

Os hoffech gael trafodaeth fanylach, gellir trefnu hyn drwy gysylltu â Emma.King2@wales.nhs.uk

Newyddion eraill

Cymdeithas Alzheimer - Galwadau Cydymaith

Mae gwasanaeth Companion Call Cymdeithas Alzheimer yn cynnig cyswllt ffôn i bobl yr effeithir arnynt gan ddementia a'u gofawyr sy'n wynebu risg uwch o brofi unigrwydd. Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu sgwrs gyfeillgar yn rheolaidd i bobl na fyddai fel arall efallai â llawer o gyswllt cymdeithasol. Mae hwn wedi bod yn brofiad boddhaus iawn i'r Cymdeithion a'r gwirfoddolwyr.

Mae pob gwirfoddolwr yn cael cynnig hyfforddiant ac yn cael rheolwr rôl a fydd yno i roi cymorth ac arweiniad trwy gydol eu taith wirfoddoli.

Mae Cymdeithas Alzheimer yn falch o fod yn recriwtio Gwirfoddolwyr ar hyn o bryd, felly os yw hyn yn rhywbeth sydd o ddiddordeb i chi, byddent wrth eu bodd yn clywed gennych! Gweler y ddolen ar gyfer eu ffurflen gais: [Ffurflen Gais](#). Neu cysylltwch â: CompanionCalls@alzheimers.org.uk a bydd aelod cyfeillgar o'r tîm mewn cysylltiad.

Cynhadledd Prosiect Eiriolaeth HOPE Age Cymru:

Oherwydd bod y tocynnau yn rhad ac am ddim ac felly y disgwylir galw mawr amdanynt, rydym yn cyfyngu ar nifer y tocynnau am ddim i 2 fesul sefydliad i ddechrau. Fodd bynnag, gallwch ofyn am enwau ychwanegol i gael eu hychwanegu at y rhestr wrth gefn, gallwch ddarganfod mwy [YMA](#)

Cylchlythyr Gwanwyn y Gymdeithas Strôc:



Community Steps
Newsletter Cymraeg



Community Steps
Newsletter.pdf

Coronafeirws

- [Datganiad diweddaraf Iechyd Cyhoeddus Cymru am Covid 19.](#)
- [Syndrom Ôl-Covid 19/Covid Hir.](#)

Iechyd a Lles

- Ydych chi'n aros yn gorfforol iach, yn gofalu am eich iechyd meddwl, yn cadw mewn cysylltiad ac yn helpu eraill? [Sut wyt ti?](#)
- Mae [taflen Cymorth Iechyd Meddwl](#) Gwasanaeth Ambiwylans Cymru yn offeryn defnyddiol a all eich cyfeirio at nifer o linellau cymorth rhagorol.
- Gall unrhyw un sy'n dioddef trais domestig gysylltu â [Byw Heb Ofn](#), yn rhad ac am ddim dros y ffôn, sgwrs ar-lein, neges destun neu e-bost – 0808 80 10 800.
- [Platform Rhaglen Lles Ar-lein Rhieni a Gofawyr](#) - bydd y Rhaglen Lles Ar-lein yn rhoi'r offer a'r wybodaeth i chi i helpu i gefnogi iechyd meddwl a lles eich plentyn

Edrych i'r dyfodol:

2^{ail}-8^{fed} Mai yw [Wythnos Ymwybyddiaeth o fod yn Fyddar 111 adnoddau Cymru yn BSL](#)

9^{fed}-15^{fed} Mai yw [Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl](#)



15fed-21^{ain} Mai yw [Wythnos Ymwybyddiaeth Dementia](#)

16^{eg} Mai-16^{eg} Mehefin [Mis Cenedlaethol Gwenu](#)

Dydd Mawrth 17^{eg} Mai [Diwrnod Rhyngwladol yn erbyn Homoffobia, Deuffobia a Thrawsffobia](#)

Cysylltwch â ni:

Tîm Profiad Cleifion a Chynnwys y Gymuned (PECI)

Ffôn: 0300 123 9207 **E-bost:** Peci.team@wales.nhs.uk